Ffordd Nebo, Llanrwst, Conwy LL26 OSD
Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800
Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
Ebost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
Pennaeth / Head
Owain Gethin Davies

BLWYDDYN 12/13 / YEAR 12/13

28/10/20

Annwyl Rhieni / Gwarcheidwaid,

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch diweddaru ar Addysgu a Dysgu yn Ysgol Dyffryn Conwy. Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y bydd Blynyddoedd 9-13 yn dysgu o bell yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 02/11/2020 tan 6/11/2020.

Bydd y dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Llun y 9fed o Dachwedd.

Bydd y llythyr canlynol yn rhannu gwybodaeth gyda chi parthed y trefniadau ar gyfer yr wythnos nesaf ac bydd atodiad yn darparu gwybodaeth penodol ar gyfer blwyddyn ysgol eich mab / merch.

Dysgu o bell

Gallaf eich sicrhau y bydd staff yr ysgol wedi addasu'r cynlluniau dysgu er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu ar ddysgu eich plentyn a sydd bosib wrth ddysgu o bell.

- Mae'r dull yr ydym yn mabwysiadu ar gyfer y cyfnod atal byr yn cydnabod bod plant hŷn yn gallu ymrwymo'n well i ddysgu hunangyfeiriedig ochr yn ochr â thasgau dysgu strwythuredig ac addysgu ar-lein.
- Bydd disgyblion a staff yn parhau i ddilyn eu hamserlenni arferol, er mwyn osgoi llwyth gwaith diangen ac i sicrhau trefn ddyddiol i ddisgyblion o ran derbyn y gwaith ar Google Classroom ac er mwyn parhau gyda'r gwaith yn annibynnol.
- Bydd y gwaith yn amrywiol o ran strwythur gyda rhai tasgau yn gyflwyniadau, eraill yn glipiau fideo gyda esboniadau a sesiynau ffrydio byw. Rhain oll wedi cael eu cefnogi gyda atodiadau a thaflenni gwaith ar Google Classroom.
- Fe fydd athrawon / staff ar gael i ymateb i unrhyw bryderon am y gwaith drwy Google Classroom yn ystod cyfnod y wers ar yr amserlen ddysgu arferol.
- Ni fydd disgwyl i athrawon weithio y tu allan i oriau'r ysgol o ran ymateb i gwestiynau ac er mwyn rhoi arweiniad pellach i ddysgwyr. Er hyn, bydd athrawon pan ar gael ac ddim yn addysgu dosbarthiadau eraill yn sicr yn fwy na pharod i ymateb i gwestiynau /rhoi arweiniad o fewn amser rhesymol yn ystod yr wythnos.
- Er y bydd y gwaith yn cael ei osod a'i gyflwyno gan ddilyn yr amserlen arferol – ni fydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i gadw at amseroedd gwersi o ran cyflawnni'r gwaith.
- Efallai y byddai'n well gan rai dysgwyr fod yn fwy hyblyg yn ystod y dydd er mwyn cynnal dysgu, cymhelliad a lles unigol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau hyblygrwydd os bydd mynediad at offer TGCh yn amrywio yn ystod y dydd ac o gartref i gartref. Fodd bynnag, byddai'n well pe gellid dod i arfer â chyflawni'r gwaith yn ôl trefn briodol ac o fewn amser rhesymol.
- Bydd gwaith yn parhau i fod ar gael ar Google Classroom yn dilyn y wers er mwyn ail edrych

Ffordd Nebo, Llanrwst, Conwy LL26 OSD
Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800
Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
Ebost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
Pennaeth / Head
Owain Gethin Davies

drwy'r gwaith ar unrhyw amser ac er mwyn ail ymweld.

Google Classroom
Er mwyn eich cynorthwyo chi fel rhieni / gwarcheidwad a'r dysgwyr gyda Google Classroom mae Mrs Sarah Tudor - Arweinydd Cymhwysedd Digidol yr ysgol wedi llunio cyfres o adnoddau pwrpasol er mwyn eich cefnogi gan gynnwys:

- Canllaw rhyngweithiol i Google Classroom ar ffurf cyflwyniad cam wrth gam.
- Cyfres o glipiau fideo sydd yn dangos sut mae cwblhau tasgau ar Google Classroom.
- Gwefan rhyngweithiol sydd yn cynnwys clipiau fideo niferus er mwyn eich cynorthwyo chi a'r dysgwyr gyda Google Classroom.

Ffrydio Byw

- Os bydd sesiynau ffrydio'n fyw ar gyfer gwers /pwnc penodol, bydd hyn yn digwydd yn ystod amser penodol y wers, gan ddefnyddio Microsoft TEAMS / Google Meet trwy'r platfform HWB.
- Dylai disgyblion wirio eu calendr Teams / dosbarthiadau Google Classroom (google meet) ar gyfer y wers o dan sylw yn rheolaidd am y gwahoddiad i ymuno.
- Dylid pwysleisio bod arfer dda lleol a chenedlaethol yn nodi bod y rhan fwyaf o sesiynau ffrydio byw yn fwya effeithiol er mwyn gwneud cyflwyniadau byr (o tua 10 munud) er mwyn cyflwyno cysyniadau newydd neu er mwyn cyflwyno arweiniad i dasg.
- Ni fydd pob sesiwn ffrydio byw yn 'wersi cyflawn' gan nad ydi hyn yn cael ei adnabod fel arfer dda nac ychwaith yn ddefnydd fwyaf effeithiol o amser y dysgwyr wrth allu fynd ymlaen i gwblhau tasg a datblygu sgiliau gweithio'n annibynnol.
- Dylid hefyd pwysleisio os na fydd dysgwyr yn gallu mynychu sesiynau ffrydio byw y bydd yr adnoddau i gyd ar gael ar Google Classroom ar gyfer y dysgwyr gwblhau ar unrhyw adeg.

<u>Cyfnod Tiwtorial Rhithiol Boreuol (dosbarth cofrestru)</u>

- Bydd ambell gyfnod tiwtorial boreol 'ffrydio byw' gyda'r tiwtor dosbarth am 9:00yb (cyfnod byr o tua 10 munud) yn ystod yr wythnos.
- Mae gwybodaeth pellach am hyn ar gael ar y dudalen olaf
- Bydd y sesiynau ar Google Meet ar blatfform HWB.
- Bydd hyn yn gosod strwythur i'r diwrnod, ac yn sicrhau bod y disgyblion yn barod ar gyfer y diwrnod sydd o'u blaen.
- Dylid pwysleisio os na fydd dysgwyr yn gallu mynychu sesiynau tiwtorial ffrydio byw y bydd yr holl wybodaeth i gyd ar gael ar Google Classroom ar gyfer y dysgwyr yn dilyn y sesiwn ar unrhyw adeg.
- Bydd yr wybodaeth fydd yn cael ei rannu neu unrhyw gyhoeddiad pwysig gan y tiwtor yn cael ei roi ar Google Classroom y dosbarth tiwtorial fel bod y dysgwyr yn gallu edrych drwy'r wybodaeth ar unrhyw adeg yn dilyn y cyfnod boreuol neu os yn methu mynychu.

YSGOL DYFFRYN CONWY

Ffordd Nebo, Llanrwst, Conwy LL26 OSD
Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800
Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
Ebost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

Pennaeth / Head
Owain Gethin Davies

Cyfnod Gwasanaeth Blwyddyn Rhithiol Boreuol

- Bydd un cyfnod gwasanaeth blwyddyn boreuol 'ffrydio byw' gyda'r Arweinydd Cynnydd ac aelod o'r Uwch Dim Arwain am 9:00yb (cyfnod byr o tua 10 munud) yn ystod yr wythnos.
- Mae gwybodaeth pellach am hyn ar gael ar y dudalen olaf.
- Bydd y sesiynau ar Google Meet trwy Google Classroom blwyddyn a fydd yn cael ei greu ar blatfform HWB gweler gwybodaeth isod er mwyn ymuno gyda'r Google Classroom.
- Dylid pwysleisio os na fydd dysgwyr yn gallu mynychu sesiynau gwasanaeth ffrydio byw y bydd yr holl wybodaeth i gyd ar gael ar Google Classroom y Flwyddyn ar gyfer y dysgwyr yn dilyn y sesiwn ar unrhyw adeg.
- Bydd yr wybodaeth fydd yn cael ei rannu neu unrhyw gyhoeddiad pwysig gan yr Arweinydd Cynnydd yn cael ei roi ar Google Classroom y Flwyddyn fel bod y dysgwyr yn gallu edrych drwy'r wybodaeth ar unrhyw adeg yn dilyn y cyfnod boreuol neu os yn methu mynychu.

Bydd arweiniad llawn o ran yr holl wybodaeth sydd wedi cael ei gyflwyno yn y llythyr ar gael ar gyfer y dysgwyr ar ffurf clipiau fideo byr ar cyfryngau cymdeithasol yr ysgol (Facebook, Instagram a Twitter a sianel You Tube yr ysgol). Hoffwn eich annog i rannu'r wybodath yma gyda'r dysgwyr ac eu bod nhw yn dod yn gyfarwydd gyda'r wybodaeth cyn cychwyn ar y gwaith dysgu ar lein. Byddwn hefyd yn rhannu rhain gyda chi ar ffurf cyfres o gysylltiadau mewn llythyr yn fuan.

Mae adborth cadarnhaol gan rieni yn ddiweddar yn cadarnhau y bydd dilyn y strwythur hwn yn sicrhau bod disgyblion yn parhau i ymgysylltu trwy gydol y dydd. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn ymgysylltu wrth ddysgu o bell, oherwydd gall diffyg ymgysylltu gael effaith negyddol ar eu haddysg yn y tymor hir; mae pob gwers yn cyfrif!

Fel ysgol, rydym yn defnyddio'r cyfle hwn i ddysgu, mireinio a datblygu sgiliau newydd i gefnogi a llunio dyfodol addysgu a dysgu yn Ysgol Dyffryn Conwy.

Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus.
Cadwch yn ddiogel a dymuniadau gorau

OG Davies

Owain Gethin Davies
Pennaeth

YSGOL DYFFRYN CONWY

Ffordd Nebo, Llanrwst, Conwy LL26 OSD
Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800
Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
Ebost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
Pennaeth / Head
Owain Gethin Davies

Blwyddyn / Year 12 / 13 - Cyfnod Boreuol / Morning Period

Diwrnod **Day**	**Amser** **Time**	**Gweithgaedd** **Activity**	**Lle?** **Where?**
Llun Monday	9yb/am	Gwasanaeth Blwyddyn ar: Year Assembly on: Google Meet (HWB Google for Education)	Google Meet Joining Code ydc6ed
Mawrth Tuesday	9yb/am	Gwylio clip fideo sydd yn cyflwyno chi i drefniadau'r wythnos. Watch a video clip that introduces you to the routines of the week. '2.11.2020'	Sianel You Tube Ysgol Dyffryn Conwy https://www.youtube.com/channel/UCKd4G7c-jf9gSGzHgrRD1MA
Mercher Wednesday	9yb/am	DIM GWEITHGAREDD NO ACTIVITY	
Iau Thursday	9yb/am	Sesiwn Tiwtor Dosbarth ar: Classroom Tutor Session on: Google Meet (HWB Google for Education)	Google Meet Joining Code ydcmachno12 ydcgarmon12 ydcmachno13 ydcgarmon13
Gwener Friday	9yb/am	DIM GWEITHGAREDD NO ACTIVITY	